



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol

Ymgynghoriad ar swyddogaethau Awdurdod Iechyd Arbennig i
Gymru yn y maes Digidol.

Dyddiad cyhoeddi: 7 Medi 2020

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Tachwedd 2020

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ac yn ceisio barn ar y swyddogaethau arfaethedig i Awdurdod Iechyd Arbennig er mwyn darparu gwasanaethau digidol, data a thechnoleg cenedlaethol ar gyfer y maes iechyd a gofal yng Nghymru.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen/arolwg ymateb i ymgynghoriad sydd ar gael ar ein gwefan:

www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Gellir dychwelyd ffurflenni atom cyn 30 Tachwedd 2020 drwy anfon e-bost at:

HSS.TechnologyAndDigital@llyw.cymru

Neu, defnyddiwch y ffurflen ymateb i ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon a'i dychwelyd atom drwy'r post:

Gareth Cross
HSS Technoleg a Digidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

HSS.TechnologyAndDigital@llyw.cymru

Gareth Cross
HSS Technoleg a Digidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UR

**Mae'r ddogfen yma <https://gov.wales/consultations>
hefyd ar gael yn
Saesneg / This
document is also
available in English**

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Rhagair

Mae *Cymru Iachach* yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu'r buddsoddiad mewn iechyd a gofal digidol yn sylweddol. Bydd hyn yn rhan allweddol o drawsnewid ein system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae Cymru Iachach yn cydnabod yr her sylweddol o sbarduno newid digidol yn gyflym ac yn eang. Mae'n nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi, yn disgrifio ymagwedd 'llwyfan agored' newydd tuag at arloesedd digidol, ac yn cydnabod yr angen i gryfhau trefniadau arwain a chyflawni cenedlaethol. Yn ystod ein hymateb i COVID-19 mae ein hymagwedd tuag at iechyd digidol wedi ein galluogi i sicrhau mynediad parhaus at wasanaethau gofal iechyd.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau adolygiad sylweddol o'r ddarpariaeth ddigidol yng Nghymru yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus¹ ar "*Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru*" a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018. Roedd y cyntaf yn edrych ar sut mae systemau digidol yn cael eu dylunio i gydweithio ('yr Adolygiad o'r Saerïaeth Ddigidol') a'r ail yn edrych ar strwythurau cyflawni a threfniadau gwneud penderfyniadau ('yr Adolygiad Llywodraethu Gwybodeg Iechyd'). Mae'r ddau adolygiad hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer newidiadau i'n dull o weithredu a darparu gwasanaethau digidol ar draws GIG Cymru.

Ar 30 Medi 2019, cyhoeddais y byddai Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn newid ei strwythur presennol, fel rhan o Ymddiriedolaeth Felindre, i fod yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd. Dyma'r cyhoeddiad:

"Bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn newid ei strwythur presennol, fel rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre, i fod yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd. Drwy ddangos bod ein sefydliad gwasanaethau digidol cenedlaethol yn sefydliad pwrpasol, rydym yn adlewyrchu bod technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o sicrhau newid, fel yr amlinellir yn Cymru Iachach. Bydd y newid hwn yn cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd, o ran y berthynas â sefydliadau eraill yn GIG Cymru a drwy fesurau arwain a goruchwyllo cryfach. Gwneir hynny o dan arweiniad aelodau bwrdd a chadeirydd annibynnol sydd â phrofiad a dealltwriaeth o newid digidol."

Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal ac yn ymateb iddo, ynghyd â'r adroddiadau a'r argymhellion gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig newydd er mwyn gwella'r swyddogaethau sydd ar gael i gefnogi'r gwasanaethau digidol yn GIG Cymru. Hoffwn glywed eich barn am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol a'u heffeithiau cysylltiedig, gan ystyried map ffordd digidol a gweledigaeth ehangach Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn *Cymru Iachach*.

Vaughan Gething AC, Gweinidog y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

¹ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11822/cr-ld11822-w.pdf>

BETH YW GWASANAETH GWYBODEG GIG CYMRU (NWIS)?

NWIS yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n arwain y gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal digidol ar gyfer GIG Cymru. Mae'n gyfrifol am ddatblygiad strategol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu er mwyn helpu i drawsnewid gwasanaethau GIG Cymru a darparu gwasanaethau gweithredol.

Cefndir

Sefydlwyd NWIS ar 1 Ebrill 2010 fel rhan o Raglen Diwygio Gofal Iechyd GIG Cymru, gan ddod â'r canlynol at ei gilydd:

- **Hysbysu Gofal Iechyd**

Sefydlwyd y Rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd gan Lywodraeth Cymru yn 2003 ac fe'i cynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg ar y pryd. Sefydlwyd y Rhaglen i drosi Strategaeth Hysbysu Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru yn fap ffordd ar gyfer cyflawni gyda phum thema allweddol:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol integredig
- Cefnogi ffyrdd newydd o weithio drwy weithlu sy'n llythrennog yn dechnegol
- Defnyddio technoleg i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd
- Defnyddio technoleg i gefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau
- Gwellu dulliau rheoli a throsglwyddo data a gwybodaeth ar draws Cymru

Roedd y Rhaglen yn gweithredu ar sail Cymru gyfan ac yn gyfrifol am ddatblygu map ffordd strategol neu Lasbrint ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau digidol newydd (a gydnabyddir bellach fel Saerïaeth Genedlaethol) ac arwain y gwaith o gaffael gwasanaethau digidol yn strategol ar ran GIG Cymru. Parhaodd NWIS â holl swyddogaethau allweddol y Rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd ar ôl uno ym mis Ebrill 2010.

- **Atebion Iechyd Cymru**

Sefydlwyd Atebion Iechyd Cymru yn 2002 fel un o adrannau Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Ei brif swyddogaethau oedd:

- datblygu, rheoli a chefnogi meddalwedd ar ran GIG Cymru
- casglu a rheoli data ar draws GIG Cymru
- darparu seilwaith technegol ar gyfer GIG Cymru, gan gynnwys rhwydwaith a gweinyddion, technoleg e-bost a diogelwch TG

Ar ôl creu NWIS, roedd y swyddogaethau hyn yn dal i gael eu darparu ar sail Cymru gyfan.

- **Canolfan Gwasanaethau Busnes**

Cynhaliwyd y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn flaenorol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Roedd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes ystod eang o swyddogaethau y tu hwnt i gwmpas NWIS, ond trosglwyddwyd ei Hadran Technoleg a Rheoli Gwybodaeth i NWIS pan gafodd ei huno yn 2010. Roedd y swyddogaethau

hyn yn cynnwys cefnogi, rheoli a dadansoddi gwybodaeth ar ran y 22 Bwrdd Iechyd Lleol (ar y pryd) yn ogystal â chymorth technegol a swyddogaethau desg gwasanaeth ar sail Cymru gyfan.

Parhaodd y swyddogaethau hyn ar ôl ad-drefnu GIG Cymru yn 2007 ac yna yn 2010 fe ddaeth y swyddogaethau hyn yn rhan o gwmpas a chylch gwaith NWIS.

- **Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol**

Sefydlwyd y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol, a gynhaliwyd yn wreiddiol gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, er mwyn gwella ansawdd y data a gesglir ar draws GIG Cymru. Roedd hyn yn cael ei sbarduno drwy osod safonau data yn gyson ar draws systemau GIG Cymru ac yna defnyddio'r data o ansawdd gwell i hybu'r broses o wella gwasanaethau.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gylch gwaith y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwybodaeth yn NWIS ac mae gwaith i wella ansawdd data wedi parhau o dan bortffolio o swyddogaethau NWIS.

- **Rhaglen Gwybodeg Gofal Sylfaenol**

Sefydlwyd Rhaglen Gwybodeg Gofal Sylfaenol yn wreiddiol gan LIC ac fe'i cynhaliwyd yng Nghaerdydd a'r Fro, ac roedd yn gyfrifol am y canlynol:

- Cefnogi gofynion Technoleg a Rheoli Gwybodaeth ar gyfer yr holl wasanaethau Gofal Sylfaenol ledled Cymru
- Sicrhau bod dull corfforaethol, cyson a theg o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau TGCh i wasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru
- Gosod polisi Technoleg a Rheoli Gwybodaeth corfforaethol a chyfeiriad strategol ar gyfer yr holl Wasanaethau Gofal Sylfaenol yng Nghymru
- Sicrhau bod Technoleg a Rheoli Gwybodaeth Gofal Sylfaenol yn cydymffurfio â gofynion integreiddio gyda rhaglenni a gwasanaethau cenedlaethol yn y dyfodol, gan gynnwys y Cofnod Iechyd Unigol

Mae nifer y systemau gofal sylfaenol y mae'r sefydliad yn eu cefnogi yn dyst i barhad y swyddogaethau hyn ar sail Cymru gyfan gan NWIS. Cafodd ei ymestyn dros y blynyddoedd diwethaf drwy gynnwys Dewis Fferyllfa, Gwasanaethau Cyfeirio Deintyddol a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar y rhestr o wasanaethau a gefnogir gan NWIS.

Statws Cyfreithiol

Mae NWIS yn sefydliad anstatudol ar hyn o bryd, ac yn cael ei gynnal o dan fframwaith statudol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Felindre yn darparu cymorth mewn meysydd penodol, fel goruchwyllo'r Bwrdd ac archwiliadau a rhai swyddogaethau ariannol fel Rheoli Arian.

Fodd bynnag, mae NWIS yn rheoli'r rhan fwyaf o'i weithrediadau'n fewnol, gan gynnwys datblygu sefydliadol a'r gweithlu, cyfleusterau, ystadau a gwasanaethau masnachol, cynllunio a pherfformiad a'r gweithgareddau cyllid sy'n weddill. Mae rhai gweithgareddau

ychwanegol hefyd yn cael eu darparu neu eu cefnogi gan sefydliad Cydwasanaethau GIG Cymru, yn unol â threfniadau tebyg ar draws GIG Cymru.

BETH YW'R PRIF FATERION?

Y prif faterion i NWIS yn ei gyflwr presennol yw ei drefniadau atebolrwydd a llywodraethu. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i gynyddu amlygrwydd y ddarpariaeth ddigidol ar draws GIG Cymru a'r sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn barhaus wrth i dechnoleg ddatblygu. Drwy sefydlu awdurdod iechyd arbennig ceir cyfle hefyd i wella swyddogaethau'r sefydliad er mwyn caniatáu mwy o ymreolaeth wrth brosesu data iechyd.

Safoni Systemau Digidol a Llwyfannau Agored

Mae llawer o lwyfannau a systemau Cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau GIG Cymru yn storio ac yn defnyddio data mewn ffyrdd gwahanol. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu'n wahanol ar draws rhanbarthau ac arbenigeddau clinigol. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno galluogi lechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu a darparu dull llwyfan agored newydd yn seiliedig ar safonau er mwyn casglu a defnyddio data ym maes iechyd digidol, o dan gyfarwyddyd Prif Swyddog Digidol newydd. Yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd fydd perchennog y system ar gyfer y llwyfan hwn ac esiampl y bydd sefydliadau lechyd yn troi ati wrth ganfod, datblygu a defnyddio atebion iechyd digidol.

Gwybodaeth am lechyd Cleifion

Mae pob un o'r cyrff iechyd yn casglu gwybodaeth am bobl wrth geisio rhoi gofal uniongyrchol iddynt; fodd bynnag, mae'r data hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i helpu i fodelu'r ffordd y darperir gwasanaethau ac i helpu i ragweld tueddiadau o ran galw yn y dyfodol. Yng Nghymru, nid oes gan NWIS ymreolaeth i brosesu gwybodaeth at y diben hwn ar hyn o bryd, ac fe all hynny achosi problemau wrth gymryd rhan mewn archwiliadau ac ymchwiliadau Cenedlaethol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru am greu cyfrifoldeb statudol clir a diamwys sydd wedi'i ddisgrifio'n dda er mwyn casglu, prosesu a dosbarthu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Preswylwyr Cymru ar gyfer GIG Cymru. Bydd y fframwaith yn disgrifio sut y dylid casglu gwybodaeth ac fe fyddai'n debyg i Gyfarwyddiadau, Rheoliadau a hysbysiadau Darparu Data sy'n caniatáu i wasanaeth Digidol y GIG brosesu gwybodaeth ar ran NHS England.

Atebolrwydd

Ar hyn o bryd mae NWIS yn atebol i Fwrdd Felindre o ran sicrhau bod ei staff a'r gweithgareddau maen nhw'n eu gwneud yn cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog, y Polisiâu, y Gweithdrefnau a'r trefniadau llywodraethu a nodir gan yr Ymddiriedolaeth, ac yn unol â nhw. Fodd bynnag, o ran y Gwasanaethau mae NWIS yn eu darparu, mae'n cael cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig i Lywodraeth Cymru sydd ar wahân i'r Ymddiriedolaeth.

Bydd newid NWIS yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn cryfhau trefniadau atebolrwydd, ac yn cynnig cyfleoedd i wella trefniadau atebolrwydd yng nghyswllt gwasanaethau digidol yn gyffredinol, yn ogystal â sicrhau bod y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd yn gyson â gweledigaeth a map ffordd digidol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u nodi yn *Cymru Iachach*.

Llywodraethu

Mae trefniadau llywodraethu presennol NWIS weithiau'n gymhleth oherwydd y trefniadau cynnal. Yn aml mae'r cymhlethdodau'n bodoli yn sgil y ffaith nad yw NWIS yn endid cyfreithiol ynddo'i hun. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd newid NWIS yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn gwella'r trefniadau llywodraethu yn sylweddol ar gyfer gwasanaethau digidol yn GIG Cymru.

Amlygrwydd Darpariaeth Ddigidol

Mae'r ddarpariaeth ddigidol eisoes yn amlwg iawn o fewn fframwaith gweithredu GIG Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu, trawsnewid a gwella'n barhaus yn y maes hwn drwy greu awdurdod iechyd arbennig a fydd yn dod yn arweinydd system ar gyfer atebion iechyd digidol. Bydd y sefydliad newydd yn gyd-gorff i holl gyrff eraill GIG Cymru ac felly bydd ganddo ddylanwad i sicrhau bod darpariaeth ddigidol yn cael blaenoriaeth yn y cyrff hynny ac yn flaenllaw yn eu cynlluniau.

BLE RYDYM NI NAWR?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu newid NWIS yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol ac mae nawr yn ceisio penderfynu'n derfynol ar swyddogaethau'r sefydliad newydd. Rydym yn ystyried bod y swyddogaethau hyn yn cynnwys darpariaeth gynhwysfawr i hwyluso esblygiad aeddfedrwydd digidol ar draws y sector Iechyd a Gofal yng Nghymru.

PAM EIN BOD YN CYNNIG NEWID?

Mae'r adolygiadau canlynol ar wybodeg yn GIG Cymru oll wedi gwneud argymhellion allweddol ar gyfer gwella:

- Adroddiad Archwilio Cymru²
- Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus³
- Adolygiad o'r Saerïaeth Ddigidol ⁴
- Adolygiad Llywodraethu Gwybodeg Iechyd⁵

Un o themâu amlwg pob un o'r adolygiadau yw gweithredu newidiadau. Credwn fod newid NWIS yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn mynd i'r afael â'r argymhellion i'r eithaf, ac yn sicrhau atebolrwydd uniongyrchol a thryloyw i'r graddau mwyaf posibl, ac ar yr un pryd yn sefydlu sefydliad digidol cenedlaethol gan darfu cyn lleied â phosibl.

Gwella Atebolrwydd

Bydd newid NWIS yn Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn sefydlu cadeirydd a bwrdd penodedig sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarpariaeth ddigidol, ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau digidol ochr yn ochr â galluogwyr allweddol eraill fel addysgu'r gweithlu digidol a gwybodeg.

Bydd cael cadeirydd penodedig yn:

- Cadarnhau bod yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn gyd-gorff i Fyrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd eraill yn GIG Cymru.
- Gwella atebolrwydd uniongyrchol a thryloyw i Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.
- Parhau i gynyddu amlygrwydd y ddarpariaeth ddigidol ar draws GIG Cymru.
- Atgyfeirio mwy at wasanaethau digidol ar gyfer GIG Cymru.

² <https://www.audit.wales/cy/system/files/publications/NHS-%20Informatics-2018%20-%20Welsh.pdf>

³ <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld11822/cr-ld11822-w.pdf>

⁴ <https://business.senedd.wales/documents/s95234/PAC5-27-19%20P1%20-%20WG%20Evidence%20Paper%20on%20Informatics%20Systems.pdf>

⁵ <http://www.seneddtest.assembly.wales/documents/s95234/PAC5-27-19%20P1%20-%20WG%20Evidence%20Paper%20on%20Informatics%20Systems.pdf>

Symleiddio Llywodraethu

Bydd trefniadau llywodraethu symlach yn gwneud yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn y maes Digidol yn gyfrifol am weithredu cyfarwyddyd gan:

- **Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru** – wrth iddo barhau i ddatblygu a diffinio polisi digidol a gosod strategaeth ddigidol.
- **Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal** - ei rôl fydd diffinio safonau a gwasanaethau cenedlaethol; cynghori ar strategaeth ddigidol yn y dyfodol a bod yn arweinydd proffesiynol ar gyfer y gweithlu digidol.
- **Fframwaith Llywodraethiant Digidol Newydd** – Ymateb i argymhellion Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a ddatblygwyd ar y cyd drwy grwpiau arweinyddiaeth ddigidol.

Cynyddu Amlygrwydd Darpariaeth Ddigidol

Mae'r ddarpariaeth ddigidol eisoes yn amlwg iawn o fewn fframwaith gweithredu GIG Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu, trawsnewid a gwella'n barhaus yn y maes hwn.

Credwn y bydd Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ddigidol; gydag atebolrwydd uniongyrchol i Lywodraeth Cymru, hynny yw fel cyd-gorff i Fyrddau, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd eraill, yn helpu i wreiddio datblygiad a defnydd parhaus o wasanaethau digidol, gan gefnogi'r sector Iechyd a Gofal yng Nghymru.

Er mwyn adlewyrchu ansawdd y gweithlu medrus sydd yn NWIS yn barod, rydym yn cynnig bod yr holl staff yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliad newydd ac y bydd rhywfaint o arbenigedd ychwanegol yn cael ei recriwtio er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau ychwanegol a gynigir yn y ddogfen hon.

Cydraddoldeb

Bydd y newid hwn yn symud y gwasanaeth digidol cenedlaethol yng Nghymru i statws tebyg i rannau eraill o'r DU. Er enghraifft, mae gwasanaeth Digidol y GIG yn Lloegr yn gorff cyhoeddus hyd braich.

BETH YW'R FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT DIGIDOL NEWYDD?


Mewn ymateb i angen strategol am newid a nodwyd o argymhellion a wnaed gan Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda GIG Cymru ac arweinwyr digidol i ddatblygu fframwaith llywodraethiant diwygiedig.

Nid ydym yn ymgynghori ar y Fframwaith Llywodraethiant Digidol. Serch hynny, mae'n disgrifio's cyswllt ehangach y bydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn gweithio o'i fewn, ac mae wedi llywio'r swyddogaethau arfaethedig ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig.

Fodd bynnag, cefnogir y Fframwaith gan weithgarwch cyflenwi a dyma lle daw'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn rhan allweddol ohono. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod Iechyd Arbennig ddod yn ffynhonnell ar gyfer darparu Prosiectau Digidol, Rhaglenni Digidol, Gwasanaethau Defnyddwyr a Gwasanaethau Llwyfan yng Nghymru. Mae egwyddorion cyffredinol y Fframwaith yn ymwneud â nodi a gweithredu ar angen am newid, gan weithredu'n rheolaidd ac yn briodol a hynny mewn modd syml, eglur a thryloyw. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar Benderfyniadau ac Awdurdod, Sicrwydd a Chyngor; cafodd swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig eu datblygu gan gadw hyn mewn cof.

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant Digidol yn mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn ymwybodol o bwy sydd â chyfrifoldeb ac awdurdod i wneud penderfyniadau. Mae'r Fframwaith yn darparu cylch gwaith sy'n fwy clir, ac yn osgoi gorgyffwrdd, dyblygu aelodaeth ac yn gwastatau'r hierarchaeth a'r strwythurau presennol. Y bwriad yw i'r dull hwn ddechrau cysoni terminoleg yn y cyd-destun digidol a sicrhau tryloywder ar bob lefel.

Mae'r Fframwaith yn cadarnhau rolau newydd y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal, y Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol a'r Prif Swyddog Safonau Technoleg. Mae pwyslais y Fframwaith yn rhoi mwy o her a sicrwydd, yn enwedig o ran darparu rhaglenni digidol a gwireddu buddion.



SUT FYDD Y BWRDD IECHYD A GOFAL DIGIDOL YN EDRYCH?

Ein bwriad yw rhagnodi strwythur y bwrdd, gan gynnwys nifer yr aelodau gweithredol, aelodau anweithredol ac aelodau ex officio.

Rydym yn cynnig bod y bwrdd yn cynnwys deuddeg aelod gyda hawliau pleidleisio llawn, gan gynnwys:

- Saith aelod nad ydynt yn swyddogion (gan gynnwys y Cadeirydd a'r is-Gadeirydd)
- Pump swyddog-aelod

Cynigir bod y canlynol yn swyddog-aelodau:

- Prif Weithredwr
- Swyddog Gweithredol sy'n gyfrifol am Gyllid
- Swyddog Gweithredol gydag arbenigedd clinigol priodol

Cynigir bod y canlynol yn aelodau ex officio ychwanegol heb hawliau pleidleisio:

- Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal, GIG Cymru
- Aelod o staff sy'n aelod o Undeb Llafur sy'n cael ei gydnabod

Penodir yr aelodau nad ydynt yn swyddogion yn unol â'r Broses Penodiadau
Cyhoeddus a chaiff y Prif Weithredwr ei benodi gan y bwrdd ac eithrio'r Prif Weithredwr
cyntaf a fydd yn cael ei benodi gan Weinidogion Cymru.

BETH YW SWYDDOGAETHAU ARFAETHEDIG YR AWDURDOD IECHYD ARBENNIG?

Fel corff cyhoeddus, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithredu ac yn gweithio yn unol â gwerthoedd ac ymddygiadau cydnabyddedig sy'n ofynnol gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud y canlynol ar draws yr holl feysydd swyddogaethol:

- Rhoi cyngor arbenigol ar bob maes sydd o fewn ei gylch gwaith. Bydd y cyngor yn ddiduedd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r arbenigedd sydd ar gael o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Hyrwyddo a chefnogi integreiddio darpariaeth ddigidol ar draws pob maes perthnasol lle bydd budd i'r Sector Iechyd a Gofal yng Nghymru a/neu bobl Cymru
- Darparu fframwaith Cymreig unigryw ar gyfer Iechyd a Gofal digidol, gan gydnabod daearyddiaeth, diwylliant ac iaith y wlad. Yn y cyd-destun hwn, bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio o fewn fframwaith polisi Cymru gan gynnwys egwyddorion holl ymrwymïadau strategol perthnasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys [Cymru Iachach](#) ac unrhyw bolisiâu olynol
- Datblygu cysylltiadau gwaith effeithiol gyda'r holl randdeiliaid, gan weithio o fewn y fframweithiau presennol lle bo hynny'n bosibl er mwyn cyflawni ei amcanion.
- Ymgymryd â gwaith ymchwil/gwerthuso ar draws pob un o'r meysydd sydd yng nghylch gwaith Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ar gais Llywodraeth Cymru, gan roi pobl a chleifion wrth galon y gwaith hwn.
- Gweithio gyda sefydliadau eraill ar draws y sectorau Iechyd a Gofal yn ogystal â Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau digidol parhaus yn fewnol ac yn allanol.
- Deall a mynegi ystyr risg yn ei waith, gan gydnabod yr angen i adolygu'n barhaus, dysgu gwersi a newid cyfeiriad fydd canlyniad anochel dull arloesol, uchelgeisiol ac ystwyth o wella.
- Rhoi'r dull amlddisgyblaethol wrth galon ei waith, gan fabwysiadu'r dull neu'r fethodoleg fwyaf priodol ar gyfer arfer ei swyddogaethau.
- Cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau digidol yn cael eu darparu'n gyson, yn integredig ac yn gyfartal ar draws y sector Iechyd a Gofal yng Nghymru, drwy arfer swyddogaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r tudalennau canlynol yn disgrifio swyddogaethau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn fwy manwl gyda naratif a gweledigaeth ategol.

1. Datblygu Rhaglenni a Chefnogaeth

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn ffynhonnell ar gyfer datblygu rhaglenni a llwyfannau o fewn ecosystem o ddatblygwyr eraill ar draws lechyd a Gofal a phartneriaid masnachol.

Bydd yn darparu cymorth gyda dylunio, datblygu a phrofi yn erbyn y saernïaeth genedlaethol ni waeth pa sefydliad sy'n datblygu'r rhaglen. Er enghraifft, p'un a yw'r rhaglenni'n cael eu datblygu yn 'fewnol', mewn rhan arall o'r maes lechyd a Gofal neu'n cael eu caffael gan bartneriaid masnachol.

Bydd Prif Swyddog Digidol lechyd a Gofal (a'i swyddogion perthnasol) yn dyfarnu safonau saernïaeth cenedlaethol y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio o fewn Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â phob agwedd ar wasanaethau digidol fel Gwasanaethau Defnyddwyr, Gwasanaethau Llwyfan, Safonau, Sgiliau, Dylunio a Gwybodeg.

Fel cynrychiolydd o fewn Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru, bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda Phrif Swyddog Digidol lechyd a Gofal i drosi polisi Llywodraeth Cymru yn fap ffordd a gweledigaeth ddigidol strategol y gellir eu cyflawni.

Bydd yn:

- mabwysiadu ac yn addasu methodolegau ystwyth ar gyfer datblygu rhaglenni a gwasanaethau digidol.
- gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu rhaglenni a systemau newydd a chyfredol pan fyddant yn cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru.
- manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu, symleiddio a gwella'r defnydd parhaus o systemau digidol ledled Cymru.
- sicrhau bod rhaglenni a systemau mewnol a rhai sydd wedi'u caffael yn cysylltu'n effeithiol â setiau data perthnasol eraill gan ddefnyddio safonau ac egwyddorion agored o ran y saernïaeth.
- nodi a darparu amrywiaeth o wybodaeth fel adroddiadau rhyngwladol, ystadegau a data lechyd a Gofal, fel y cytunwyd arnynt gan strwythur Llywodraethiant Digidol GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn codi proffil gwasanaethau digidol yn y sector lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru yn barhaus ac yn gweithio gyda chyrrff i gefnogi gofynion digidol eu prosesau cynllunio.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio'n agos â'r sector lechyd a Gofal yng Nghymru a rhanddeiliaid i ddatblygu rhaglenni a systemau digidol i'w defnyddio ar y cyd i wella gwasanaethau digidol, lleihau dyblygu a chynyddu dealltwriaeth.

2. Dylunio, comisiynu, cynllunio a darparu Gwasanaethau Digidol

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddarparu technoleg a meddalwedd newydd ar draws y Sector lechyd a Gofal yng Nghymru.

Bydd yn cefnogi'r gwaith o gynllunio strategol, caffael, rheoli contractau, cyfathrebu, newid busnes a chyflawni prosiectau a rhaglenni ym maes lechyd a Gofal yng Nghymru.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio ei gyllid i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau digidol fel sail i ddarparu a thrawsnewid y gwasanaethau lechyd a Gofal. Bydd yn:

- gweithio o fewn fframwaith llywodraethiant digidol GIG Cymru.
- ymgysylltu â staff clinigol rheng flaen, pobl a chleifion i lywio'r gwaith o ddylunio atebion digidol sy'n cael eu darparu gan lechyd a Gofal Digidol Cymru ar gais Llywodraeth Cymru, Cyrff lechyd a Gofal neu Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru.
- sicrhau bod safonau ac egwyddorion agored o ran y saernïaeth yn cael eu defnyddio a bod lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyson wrth ddylunio atebion digidol.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynorthwyo Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i gynllunio, comisiynu a rheoli gwasanaethau trawsnewid digidol yn ôl y cyfarwyddyd. Bydd, ar gais Llywodraeth Cymru, Cyrff lechyd a Gofal neu Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru yn gwneud y canlynol:

- helpu i negodi, rheoli a monitro gwasanaethau trawsnewid digidol.
- caffael a darparu technoleg a gwasanaethau newydd i gefnogi'r sector lechyd a Gofal yng Nghymru.
- darparu arbenigedd rheoli prosiectau a rhaglenni i ddarparu gwasanaethau newid a thrawsnewid busnes yn effeithiol.
- darparu cymorth ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau digidol peilot fel cynlluniau braenaru ar gyfer mentrau ehangach yng Nghymru.
- sicrhau bod gwasanaethau lechyd a Gofal digidol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion y sector lechyd a Gofal yn ei gyfanrwydd yng Nghymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig a darpariaeth Gymraeg.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn hwyluso'r gwaith i foderneiddio systemau presennol GIG Cymru yn unol ag Adolygiad o'r Saernïaeth Ddigidol 2019 yn seiliedig ar gyfarwyddyd parhaus fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn creu saernïaeth 'agored' ar gyfer gwasanaethau lechyd a Gofal digidol yng Nghymru.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn defnyddio safonau a pholisïau a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymru.

Bydd yn:

- Rhannu ei brofiad presennol o ddylunio, datblygu, defnyddio, rheoli a gwella gwasanaethau digidol ar draws GIG Cymru.
- Adeiladu ar arbenigedd presennol i hyrwyddo'r broses o weithredu polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo'r gwaith o weithredu safonau a osodir gan y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal.

3. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu seilwaith a gwasanaethau TG i gefnogi gwasanaethau cenedlaethol a ddefnyddir ar draws y sector lechyd a Gofal yng Nghymru.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu'r seilwaith a'r gwasanaethau TG angenrheidiol i gefnogi Systemau Cenedlaethol a ddefnyddir ar draws GIG Cymru.

Bydd yn:

- Mabwysiadu dull cwmwl yn gyntaf ar gyfer gwasanaethau cynnal data ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau newydd.
- Sicrhau rheolaeth weithredol effeithiol o ddyfeisiau defnyddwyr y mae'n gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd, gan gynnwys y rhai mewn practisau meddygon teulu.
- Rheoli caledwedd a gwasanaethau canolfannau data ar gyfer systemau cenedlaethol, gan gynnwys y seilwaith a'r gwasanaethau a ddefnyddir gan ofal sylfaenol.
- Darparu desg gwasanaeth a chymorth datrys problemau effeithiol ar gyfer systemau lleol a chenedlaethol sy'n rhan o'i gyfrifoldebau.
- Sicrhau bod yr holl raglenni, gwasanaethau a seilwaith presennol yn cael eu trosglwyddo i lwyfan yn y cwmwl lle bo hynny'n bosibl.
- Sicrhau bod pob rhaglen a gwasanaeth yn cael ei ddatblygu a'i gynnal ar sail safonau ac egwyddorion agored o ran y saernïaeth.

4. Rheoli Ansawdd a Chydymffurfio â Rheoliadau

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn ffynhonnell o ganllawiau rheoli ansawdd a chydymffurfio â rheoliadau er mwyn sicrhau bod yr atebion a'r gwasanaethau digidol sy'n cael eu defnyddio ar draws y Sector lechyd a Gofal yng Nghymru yn bodloni'r safon rheoliadol angenrheidiol er mwyn darparu diogelwch i gleifion a gweithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei thrin yn briodol.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sbarduno ffordd o feddwl arloesol gyda'r nod o wneud y defnydd gorau posibl o wasanaethau digidol i wella lechyd a Gofal.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn adeiladu ar yr arbenigedd presennol sy'n cefnogi ac yn cynghori trefniadau llywodraethu ac ansawdd rheoleiddiol ar gyfer gwasanaethau ac atebion digidol ar draws y sector lechyd a Gofal yng Nghymru.

Bydd yn:

- cefnogi'r gwaith parhaus o wella, monitro a gwerthuso ansawdd, sicrhau gwybodaeth a threfniadau llywodraethu gwybodaeth mewn gwasanaethau lechyd a Gofal digidol ledled Cymru.
- darparu gwasanaethau cyngor a chymorth o ran dehongli a defnyddio canllawiau, polisïau a safonau gwasanaethau digidol.
- sicrhau ansawdd y prosesau a fabwysiadir gan sefydliadau'r GIG mewn perthynas â threfniadau ansawdd, sicrwydd a llywodraethu mewn atebion digidol, ar gais Llywodraeth Cymru neu Gyrff lechyd.
- gweithio gyda sefydliadau unigol y GIG i sicrhau bod trefniadau ansawdd, sicrwydd a llywodraethu yn cael eu mynegi'n glir mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, pan fydd Llywodraeth Cymru neu Gyrff lechyd yn dweud wrtho am wneud hynny.
- sicrhau bod gwasanaethau digidol a ddefnyddir ac a ddatblygir gan lechyd a Gofal Digidol Cymru yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer addasrwydd strategol, saerïol a thechnegol, fel y'u pennir gan y Prif Swyddog Digidol.
- sicrhau cydymffurfriad rheoleiddiol a diogelwch cleifion y gwasanaethau lechyd a Gofal digidol sy'n cael eu cynnal, eu defnyddio a'u datblygu gan lechyd a Gofal Digidol Cymru drwy weithio gyda rheoleiddwyr, y Prif Swyddog Digidol a'u swyddogion perthnasol

5. Rheoli Gwybodaeth

Iechyd a Gofal Digidol Cymru fydd y Trydydd Parti dibynadwy canolog a gydnabyddir ar gyfer data a gwybodaeth Iechyd a Gofal ynghylch darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru, a/neu sy'n deillio o hynny.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sefydlu ac yn gweithredu systemau digidol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth, lle mae angen yr wybodaeth honno i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Bydd hyn yn cynnwys y gofyniad i gyrff yng Nghymru sy'n darparu Gwasanaethau Iechyd a Gofal a ariennir gan y cyhoedd ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.

Y Weledigaeth:

Iechyd a Gofal Digidol Cymru fydd y Trydydd Parti dibynadwy canolog a gydnabyddir ar gyfer data a gwybodaeth Iechyd a Gofal ynghylch darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru, a/neu sy'n deillio o hynny.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ddolen i Gymru gyda chyrff digidol Iechyd a Gofal datganoledig eraill yn y DU.

Bydd yn:

- sefydlu ac yn gweithredu systemau digidol ar gyfer casglu, dadansoddi a dosbarthu gwybodaeth, lle mae angen yr wybodaeth honno i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru ac i lywio penderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru.
- meddu ar fframwaith cyfreithiol a chyfrifoldeb i gasglu gwybodaeth gan gyrff sy'n darparu gwasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru yn unol â pholisi a chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru.
- defnyddio data o bob rhan o Wasanaethau Iechyd a Gofal yng Nghymru ac yn creu llif data, dangosfyrddau ac adroddiadau sy'n addas i'r diben er mwyn darparu data gwerthfawr ar gyfer gweithgareddau gwybodaeth a chynllunio fel sail i benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru, yn ogystal â darparu gwybodaeth i glinigwyr rheng flaen.
- Helpu Sefydliadau Iechyd a Gofal i wella ansawdd y data maent yn ei gasglu a'i anfon at Iechyd a Gofal Digidol Cymru drwy weithredu safonau a chanllawiau, y cytunwyd arnynt gan strwythur Llywodraethiant Digidol GIG Cymru a Llywodraeth Cymru, i helpu sefydliadau i asesu pa mor dda maent yn gwneud.
- Creu cofrestr o'r holl wybodaeth y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei chasglu a'i chynhyrchu a chyhoeddi'r wybodaeth honno mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol fel y bydd yn ddefnyddiol i gynifer o bobl â phosibl a hefyd yn diogelu data cyfrinachol personol unigolion.
- adeiladu ar yr egwyddorion arfer gorau presennol wrth ymateb i ymatebion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i amgylchiadau penodol.
- sicrhau bod setiau data cenedlaethol a gynhelir ac a gedwir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gael, mewn amser real (neu fel y mae dibyniaethau seilwaith yn

ei ganiatáu), i bob corff lechyd a Gofal yng Nghymru, yn unol â safonau ac egwyddorion agored o ran y saernïaeth, er mwyn i'r cyrff hynny allu darparu gwasanaethau i'r cyhoedd a chleifion.

- Bod yn gyfrifol am ddarparu a chefnogi Prif Fynegai Cleifion Electronig yn barhaus, a sicrhau ei fod ar gael i bob corff lechyd a Gofal yng Nghymru, yn unol â safonau ac egwyddorion agored o ran y saernïaeth.

6. Llywodraethu Gwybodaeth

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal Fframwaith Llywodraethiant Gwybodaeth cenedlaethol sy'n cefnogi polisi Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal yng Nghymru.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu drwy ddefnyddio arbenigedd a phrofiad i ddehongli'r gyfraith, darparu cyngor, arweiniad ac asesiadau cydymffurfio.

Y Weledigaeth

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gorff sy'n gyfrifol am gasglu, prosesu a dosbarthu Gwybodaeth a data Iechyd a Gofal i Gymru.

Bydd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yr ymreolaeth a'r sail gyfreithiol i brosesu gwybodaeth a data preswylwyr Cymru.

Bydd yn:

- casglu, dadansoddi a chyflwyno data Iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol.
- sefydlu a rheoli systemau TG cenedlaethol ar gyfer trosglwyddo, casglu a dadansoddi gwybodaeth.
- sicrhau cofrestriad parhaus gyda'r awdurdodau perthnasol ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth.
- darparu ystod eang o gyngor, arweiniad a sicrwydd ar Lywodraethu Gwybodaeth i bartneriaid allanol fel sefydliadau eraill GIG Cymru.
- gweithredu fel rheolydd a phrosesydd data i gefnogi datblygiadau nawr ac yn y dyfodol i reoleiddio Llywodraethu Gwybodaeth, yn enwedig yng nghyswllt GDPR.
- rheoli'r gwaith o rannu gwybodaeth yn effeithiol â sefydliadau cydnabyddedig er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol a gofynion eraill.

7. Seiberddiogelwch

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu swyddogaeth Seiberddiogelwch strategol ar ran lechyd a Gofal yng Nghymru ac yn gweithredu fel cyswllt â gwledydd eraill Prydain a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Bydd Uned Seiberddiogelwch lechyd a Gofal Digidol Cymru, ochr yn ochr â Phrif Swyddog Digidol lechyd a Gofal Cymru a'u swyddogion perthnasol, yn gosod safonau gofynnol ar gyfer GIG Cymru gan gynnwys ymgymryd â'r rolau sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Cymwys ar ran Gweinidogion Cymru, yn unol â'r Gyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu swyddogaeth Seiberddiogelwch strategol ar ran lechyd a Gofal yng Nghymru ac yn gweithredu fel cyswllt â gwledydd eraill Prydain a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Bydd yn:

- datblygu a dosbarthu, ochr yn ochr â Phrif Swyddog Digidol lechyd a Gofal Cymru a'u swyddogion perthnasol, safonau gofynnol ar gyfer Seiberddiogelwch ar draws lechyd a Gofal yng Nghymru.
- adrodd yn rheolaidd ar statws seiberddiogelwch pob system a seilwaith yn GIG Cymru i Lywodraeth Cymru a'r sefydliadau cysylltiedig hynny.
- adeiladu ar arbenigedd presennol i ddarparu cyngor a chymorth ar seiberddiogelwch ar draws lechyd a Gofal yng Nghymru.
- helpu i wella seiberddiogelwch ar lefel genedlaethol.
- sicrhau darpariaeth seiberddiogelwch briodol ar gyfer pob system ddigidol yn GIG Cymru.
- darparu arweinyddiaeth strategol, ochr yn ochr â Phrif Swyddog Digidol lechyd a Gofal Cymru a'u swyddogion perthnasol ar Seiberddiogelwch ar draws GIG Cymru, gan weithio gyda gwledydd eraill Prydain a'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.
- bod yn Awdurdod Cymwys, gan gyflawni'r swyddogaeth ar ran Llywodraeth Cymru, gyda golwg ar ddarparu gwasanaethau lechyd a Gofal mewn ymateb i'r Gyfarwyddeb Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth.

8. Cyllid a Sicrwydd Busnes

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud yn siŵr bod pob un o'i risgiau ac arbedion ariannol yn cael eu cydnabod a'u rheoli.

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli ei gyllidebau dirprwyedig ac yn gwneud penderfyniadau yn unol â'r trefniadau manwl yn y llythyr cylch gwaith blynyddol.

Y Weledigaeth:

Bydd lechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheoli'r holl ofynion ariannol a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd yn:

- Gweithio yn unol â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Rheolau Sefydlog a gymeradwywyd gan ei Fwrdd.
- Gwneud yn siŵr bod pob un o'i risgiau ac arbedion ariannol yn cael eu cydnabod a'u rheoli.
- Datblygu proses asesu strategol i sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer ei fuddsoddiadau cyfalaf ei hun yn y cyd-destun digidol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu achosion busnes ar gyfer gwasanaethau a rhaglenni digidol sy'n cael eu harwain gan lechyd a Gofal Digidol Cymru, gan weithio o fewn Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

9. Gwasanaethau Adrodd

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am ddosbarthu a defnyddio data a gesglir gan systemau TG cenedlaethol.

Y Weledigaeth:

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid ar draws y sector Iechyd a Gofal yng Nghymru er mwyn darparu adroddiadau rheoli a gwybodaeth dangosfwrdd effeithiol a chywir.

Bydd yn:

- arwain ar wella ansawdd data yn barhaus er mwyn sicrhau bod adroddiadau yn gyson ac yn addas i'r diben.
- sicrhau bod safonau dylunio cyson yn cael eu gweithredu.
- gweithredu a chynnal safonau data a osodir gan y Prif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal.
- cefnogi cyrff Iechyd a Gofal Cymdeithasol i nodi gofynion adroddiadau rheoli a dangosfwrdd.
- cefnogi Fframwaith Llywodraethiant Digidol GIG Cymru wrth ddarparu, defnyddio a chynnal adroddiadau rheoli a gwybodaeth dangosfwrdd.

10. Gwella'r Gweithlu

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn helpu Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i drawsnewid, addysgu a gwella'r gweithlu digidol.

Y Weledigaeth:

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn helpu AaGIC i wella'r gweithlu digidol a Datblygu'r Sefydliad, gan sbarduno'r gwaith o drawsnewid ac ailgynllunio'r gweithlu digidol o amgylch anghenion pobl, gan gefnogi'r gwaith o ddarparu gweithlu digidol effeithiol ar y cyd.

Bydd yn:

- gweithio gyda sefydliadau GIG Cymru i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y gweithlu digidol sy'n addas, yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy er mwyn diwallu anghenion technolegol heddiw ac yfory yn seiliedig ar dystiolaeth gref dros newid.
- cefnogi'r gwaith o drawsnewid y gweithlu drwy ddatblygu adnoddau ac offer digidol sy'n helpu GIG Cymru i drawsnewid y gweithlu digidol.
- cefnogi diwylliant o ddysgu digidol, cydweithio digidol a chefnogaeth ar gyfer arbrofi a newid yn y gweithlu digidol.

CWESTIYNAU YMGYNGHORI A CHYFLWYNO EICH YMATEB

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori er mwyn casglu barn unigolion, cadeiryddion ac aelodau o'r bwrdd, cyrff yn y sector iechyd a gofal yng Nghymru a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol.

Bydd yr ymgynghoriad yn para deuddeg wythnos a bydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2020.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 1: Byddem yn hoffi clywed eich barn am swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol

Cwestiwn 2: Byddem yn hoffi clywed eich barn am strwythur arfaethedig y bwrdd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol

Cwestiwn 3: Os ydych chi'n credu bod un neu fwy o swyddogaethau arfaethedig yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol yn gorgyffwrdd â swyddogaeth sydd eisoes yn cael ei chyflawni gan sefydliad gwahanol yng Nghymru (nad yw'n NWIS), byddem yn hoffi clywed eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn ar y materion hynny.

Cwestiwn 4: Byddem yn hoffi clywed a ydych chi'n credu y dylid cynnwys swyddogaeth arall neu set arall o swyddogaethau o fewn cyfrifoldeb yr Awdurdod Iechyd Arbennig newydd yn y maes Digidol ac i chi nodi eich rhesymau ac unrhyw dystiolaeth ac ymchwil i gefnogi eich barn.

Cwestiwn 5: Byddem yn hoffi clywed eich barn ar yr effeithiau y byddai 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 6: Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig 'Awdurdod Iechyd Arbennig i Gymru yn y maes Digidol' gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif neu fwy o effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

